# Andrew Ranger

Aelod Seneddol dros Wrecsam

***Cylchlythyr Etholaeth | Haf 2026***



## Cyfle i wneud gwahaniaeth.

Mae fy ail flwyddyn fel eich Aelod Seneddol wedi bod yn brysur ac yn wobrwyol i'r un graddau, gyda'i heriau hefyd.
Yn y Senedd, rwyf wedi bod yn arbennig o falch cael gweld a phleidleisio dros y Ddeddf Hawliau Cyflogaeth a diwedd y cyfyngiad dau blentyn a olygodd bod 2000 o blant yn Wrecsam a thros 69,000 o blant yng Nghymru wedi gallu dod allan o dlodi.
Ar gyfer y flwyddyn 2025/26, mae Cymru wedi derbyn y setliad ariannol mwyaf gan Lywodraeth y DU ers y datganoli, sef £21 biliwn. I'Rwyf wrth fy modd bod £1.5 o gyllid Effaith Balchder Bro wedi cael ei sicrhau gan Lywodraeth y DU sydd wedi'i ddyrannu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae Cynghorau Cymuned ledled Wrecsam wedi cael y cyfle i wneud cais am gyfran o'r arian. Mae gan CBSW y cynigion am brosiectau bellach ac rwy'n edrych ymlaen at weld y cynlluniau'n datblygu.
Yn ddiweddar mae fy swyddfa wedi cyrraedd y marc £300,000 o ran arian a sicrhawyd i etholwyr, boed yn ad-daliadau, ailasesiad neu iawndal. Os oes gennych chi fater yr hoffech dderbyn fy nghefnogaeth ag ef, cysylltwch â'm swyddfa gan ddefnyddio'r manylion isod.



## Balchder Bro £20 miliwn wedi'i sicrhau i Wrecsam

Rwy'n falch o fod wedi sicrhau'r rhaglen Balchder Bro gwerth £20 miliwn i Wrecsam. Yn dilyn Etholiad Cyffredinol 2024, symudodd Llywodraeth y DU newydd i sicrhau'r buddsoddiad llawn o £20 miliwn gan nad oedd wedi'i ariannu o'r blaen. Mae'r ffocws bellach yn troi at gyflawniad ac mae Bwrdd y Ddinas yn gyfrifol am hyn. Fel aelod o'r Bwrdd, byddwn yn gweithio tuag at wneud hyn ac rwy'n edrych ymlaen at y digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd dros y misoedd nesaf.

**CYSYLLTWCH Â NI**


01978 788854

Andrew.Ranger.MP@parliament.uk

House of Commons, London, SW1A 0AA

## Dinas Diwylliant

Mae Wrecsam ar y rhestr hir ar gyfer Dinas Diwylliant 2029. Mae'r tîm y tu ôl i'r cais wedi derbyn £60,000 gan yr Adran Materion Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon i ddatblygu eu cais llawn.

Mae'r cais eisoes wedi derbyn cyllid gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin (2025–26) a Menter Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru er enghraifft. Ariannodd yr olaf y llwybr Celf Gyhoeddus o amgylch y ddinas, sy'n ased o'r fath.

Mae'r rhaglen Dinas Diwylliant wedi arwain at fanteision economaidd sylweddol i Derry/Londonderry yn 2013, Hull yn 2017 a Coventry yn 2021, gan gynnwys buddsoddiad ychwanegol, gwerth yn y cyfryngau, twristiaeth, cyfranogiad diwylliannol a balchder dinesig.

Felly, bydd sicrhau'r teitl yn dod â manteision mawr i Wrecsam o ran buddsoddiad, swyddi, mynediad twristiaeth i'r celfyddydau a phrofiadau diwylliannol.

Rwy'n falch o fod yn llysgennad swyddogol ar gyfer Wrecsam 2029 ac rydym i gyd yn cefnogi'r cais #backingthebid!

# Wrecsam yn dod i San Steffan




Mae gennym gymaint i'w gynnig yn Wrecsam a chymaint i'w rannu ac i dynnu sylw ato. Roeddwn wrth fy modd cael dod â Wrecsam i San Steffan gyda fy nigwyddiad arddangos mewn cydweithrediad â Wrecsam2029 a gyda nawdd gan Syensqo a Kellogg's. Roedd yn gyfle i dwristiaeth ddangos beth sydd gan Wrecsam i'w gynnig gyda chynrychiolaeth o This is Wrecsam a Stori Brymbo. Wrth edrych i'r dyfodol, gwelodd pobl ifanc hefyd Goleg Cambria, Prifysgol Wrecsam, Darogan a We Mind the Gap yn bresennol yn ogystal â chyfleoedd i gael gwaith cyflogedig a phwysigrwydd gweithgynhyrchu lefel uwch trwy Syensqo, JCB, Hydro a Green Rock Manufacturing. Wrth gwrs, mae Wrecsam yn ardal sy'n cyfuno'r trefol a'r gwledig, gyda BASC yn egluro i ymwelwyr am y gwaith y maen nhw'n ei wneud. Yn olaf, cynrychiolwyd sefydliadau adnabyddus Wrecsam gyda Wrexham Lager, Wrexham AFC a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ynghyd ag Uchelgais Gogledd Cymru. Digwyddiad gwych. Diolch i bawb a gymerodd ran.

## Deddf Estyniadau i Oriau Trwyddedu - newid bach, effaith fawr

FMae wedi bod yn fraint cael bil wedi'i ddewis o'r bleidlais am filiau posibl aelodau preifat, ac i'w gael wedyn yn symud trwy'r ddau Dŷ ac yn derbyn Cydsyniad Brenhinol. Bydd yr effaith bosibl i'w gweld mewn digwyddiadau fel Cwpan y Byd. Mae'n newid bach a all gael effaith fawr oherwydd bydd bellach yn symleiddio'r broses o lacio oriau trwyddedu dros dro ar achlysuron o "arwyddocâd rhyngwladol, cenedlaethol neu leol eithriadol." Felly, yr haf hwn, os bydd Lloegr neu'r Alban yn cyrraedd carreg filltir bwysig sy'n gofyn am estyniadau, ni fydd yn rhaid ofni mwyach na fyddent yn cael eu cytuno mewn pryd am fod y senedd ar wyliau.

# GWAITH ACHOS WEDI'I BENDERFYNU

- **£3000 wedi'i dalu allan am addasiadau i gartref cyn-filwr anabl**
- **£2500 o ddyled ynni wedi'i dileu ar gyfer etholwr dall a bregus**
- **20+ Trwydded Gyrru wedi'u rhoi neu eu dychwelyd**
- **Tystysgrifau nawdd wedi'u sicrhau i 27 o weithwyr gofal i'w galluogi i barhau i weithio ym maes gofal cymdeithasol**

# Rhaid i'n ffocws fod ar bobl ifanc

Mae wedi bod yn ddechrau prysur i'r flwyddyn hefyd gyda fy ngwaith parhaus ar yr agenda symudedd cymdeithasol. Rwy'n gweithio gyda sefydliadau ac unigolion anhygoel i weithredu agenda sy'n sicrhau dyfodol lle mae talent, yn hytrach na chefndir, yn penderfynu'n derfynol beth yw cyfleoedd bywyd rhywun. Mae wedi bod yn bleser gen i gynnal nifer o ddigwyddiadau yn y Senedd, gan ddod â'r mater yn uniongyrchol i gartref ein democratiaeth. Roedd hyn yn cynnwys arddangos gwaith gwych Ymddiriedolaeth Sutton yn eu derbyniad blynyddol, a brecwast y Gynghrair Symudedd Cymdeithasol a ddaeth â grŵp gwych o elusennau symudedd cymdeithasol ynghyd i rannu'r hyn maen nhw'n ei wneud, yn ogystal â chwrdd â'r bobl ifanc wych y maen nhw'n eu cefnogi ac yn gweithio â nhw.




Yn fwyaf diweddar, rydw i wedi lansio ymgyrch NEET ZERO sy'n galw ar y llywodraeth i anelu at ostwng y nifer o bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant i 0. Mae hyn yn dilyn cyhoeddi adolygiad interim Milburn o waith a phobl ifanc a roddodd feirniadaeth hallt iawn am system ac economi sydd wedi methu dros filiwn o bobl ifanc. Mae hyn yn un o broblemau mawr ein cyfnod, yn genedlaethol ac yma yn Wrecsam. Rydw i wedi cymryd camau ar unwaith i wthio'r llywodraeth i sicrhau bod y newid systematig hwn yn digwydd, gan gynnwys gofyn i'r Gweinidog yn uniongyrchol ac ysgrifennu ochr yn ochr â chydweithwyr at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau. Cadwch lygad allan am hyn.

Yn lleol, rydw i wedi bod yn gweithio gyda WeMindtheGap, Partneriaeth Parc Caia, Ymddiriedolaeth y Brenin ac eraill i ddeall y sefyllfa yma yn Wrecsam yn llawn. Rydw i hefyd wedi cwrdd â chyflogwyr a phrentisiaid sy'n llywio'r system brentisiaeth a rhai o'r manteision a'r heriau y mae hyn yn eu hachosi. Mae cynyddu'r cynnig galwedigaethol sydd gennym yma yn Wrecsam yn un cam ar y daith i wella cyfleoedd i'n pobl ifanc ond mae angen llawer mwy.




Diolch i gyllid Llywodraeth y DU, mae gennym Hwb Ieuenctid yn dod i Wrecsam ochr yn ochr â'r Parth Ieuenctid yn rhan o gynllun Balchder Bro Bwrdd y Ddinas felly mae pethau cadarnhaol go iawn ar y gorwel ond mae llawer i'w wneud o hyd.

# Parcio yn yr Ysbyty

Yn dilyn fy nigwyddiad Llais Wrecsam fis Tachwedd diwethaf, rydw i wedi cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a rhanddeiliaid eraill ynghylch y sefyllfa yn y Maelor. Mae'r Bwrdd Iechyd yn archwilio atebion ac yn gweithio gyda phartneriaid yn Wrecsam. Rwyf wedi ymrwymo i barhau â'r ymdrechion hyn i ddod o hyd i atebion i'r mater hwn.

# Pont Bangor

Yn dilyn cyfarfod a drefnais gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chadw ynghyd ag aelodau o Gyngor Cymuned Bangor-is-y-Coed, tynnwyd y malurion o dan bont hanesyddol Bangor-is-y-Coed. Roeddwn yn falch o weld pawb yn dod at ei gilydd i ddiogelu'r bont ac ymdrin â phryderon y trigolion.

# GWAITH ACHOS WEDI'I BENDERFYNU

- **Pensiwn Athrawon - achos wedi'i frysio felly gwnaed taliadau ar ôl misoedd o aros.**
- **Adferwyd y Bathodyn Glas i alluogi parcio hygyrch i gleifion sy'n derbyn triniaeth yng Nglan Clwyd**
- **Hysbysiad hwyr am ganslo prawf gyrru a oedd yn golygu bod prentisiaeth dan fygythiad. Cysylltais â'r DVSA ac aildrefnwyd y prawf a phasiwyd yr etholwr.**

# Diolch i'r holl fusnesau, elusennau a sefydliadau rydw i wedi eu cyfarfod yn ystod y 12 mis diwethaf.




Wrexham Library
Wrexham Islamic and Cultural Centre
Kellogg’s
Royal Mail
Baby Basics
Aspris College
Eternal Media
Ysgol Bryn Alyn
Ysgol Clywedog
Wrexham Foodbank
The Maelor School, Penley
Village Bakery
Ysgol Rhosnesni High School
Wrexham Maelor Hospital
Coleg Cambria
Wrexham University
Baton of Hope
HACK
Theatre Train
Accessible Wrexham
BASC
TCC
Advance Brighter Futures
Caia Park Partnership
The King’s Trust
Darland High School
Bishop Heber High School
Wrexham Mindfulness Project
Vigilance Security
Spread a Smile
Wrexham Rugby Club
Senedd yr Ifanc
St Mary’s Brymbo
Stepping Stones
We Mind the Gap
Xplore
Magellan
Maximus Employment
Cats Protection
Gwenfro Valley

## Clywch y diweddaraf am fy ngwaith yn Wrecsam a San Steffan

www.andrewforlabourwrexham.org.uk
instagram.com/andrewranger
facebook.com/andrewrangerforwrexham

Published by Andrew Ranger at 33, King Street, Wrexham LL11 1HR Printed by WT Evans Printers Ltd, High Street, Cefn Mawr, LL14 3DA.